WNO
WELSH
NATIONAL
**OPERA**
CENEDLAETHOL
CYMRU

# Creu
# Estyn allan
# Ysbrydoli

**Adolygiad Blynyddol 2017/2018**

# Croeso



**Roedd 2017/2018 yn flwyddyn fawr arall i Opera Cenedlaethol Cymru. Gwnaethom greu cynyrchiadau arobryn, gwnaethom estyn allan yn ddyfnach i'n cymunedau lleol a rhyngwladol, ac ysbrydoli mwy o bobl drwy ein rhaglen addysgol a chymunedol. Dyma flas o beth ydym wedi bod yn ei wneud.**

*La forza del destino*. Mary Elizabeth Williams (Donna Leonora) a Miklós Sebestyén (Il Marchese di Calatrava). Llun gan Richard Hubert Smith

# Yn 2017/2018 cyflwynom bŵer, drama ac emosiwn pur opera i fwy na 135,000 o bobl ar lwyfannau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

‘Nid yw’n ddamweiniol, mae’n debyg, fod opera yn deffro awydd i dorri’r rheolau. Mae’n bosibl mai cerddoriaeth ei hun, yn baradocsaidd, yw un o’r ieithoedd mwyaf manwl a rhesymegol a ddyfeisiwyd gan fodau dynol erioed, ond mae ei heffaith arnom ymhell o fod yn rhesymegol. Mae’n cyffroi emosiynau, mae’n apelio at ein greddfau, mae’n ein hysbrydoli. Yn fyr, gyda cherddoriaeth o’r fath ddwyster, gallwn ddisgwyl cael ein deffro a’n cyffroi o’n corryn i’n sawdl.’

**David Pountney**
Cyfarwyddwr Artistig WNO

‘Mae opera yn adrodd straeon bythol drwy gerddoriaeth anhygoel a gwledd weledol, nid oes unrhyw beth arall yn debyg iddi, mae’n apelio at bobl mewn modd na all unrhyw ffurf arall ar gelfyddyd. Yn 2017/2018 rydym wedi parhau i gyflwyno’r profiad hwn i fwy o bobl yn y DU ac yn rhyngwladol drwy ein gwaith Ieuenctid, Cymunedol ac Estyn Allan; ein partneriaethau â lleoliadau, cymunedau lleol, a sefydliadau celfyddydol; ein rhaglen artistig eithriadol, uchelgeisiol a mentrus; a’n hymrwymiad i deithio yng Nghymru, yn Lloegr ac yn rhyngwladol. ’

**Leonora Thomson**
Rheolwr Gyfarwyddwr WNO



*La forza del destino.* Justina Gringyté (Preziosilla). Llun gan Richard Hubert Smith

# Dros 100,000

cynulleidfa ledled y byd

# 110

o berfformiadau byw

# 35,000

wedi cymryd rhan yn ein gweithgareddau estyn allan

# 30

o leoliadau teithio



*Khovanshchina*. Corws WNO. Llun gan Clive Barda

# Creu

**Rydym yn creu opera sydd yn llachar, bywiog ac amlwg. Pa un a yw'n gomisiwn newydd, yn berl na chaiff ei pherfformio yn aml neu'n adfywiad o hen ffefryn, mae ein rhaglen artistig yn llwyddiannus, yn destun canmoliaeth gan feirniaid ac yn cysylltu â phobl ar draws y byd.**


Khovanshchina Musorgsky


Eugene Onegin Tchaikovsky


From the House of the Dead Janáček


Cyfres o Gyngherddau Rhyngwladol


La forza del destino Verdi


Tosca Puccini

**'Yn ystod 2017/2018, ein huchelgais oedd profi i'n cynulleidfa fod pob noson a dreulir mewn perfformiad WNO yn ddigwyddiad arbennig, drwy greu profiad cwbl ymgollol lle arddangosir ein hegni a'n cariad at gerddoriaeth. Roedd y darnau hyn a berfformiwyd yn 2017/2018 mor bwysig, gan eu bod yn gallu cysylltu ein cynulleidfaoedd drwy themâu heddwch, trugaredd, parch ac ysbrydoliaeth, ac ar yr un pryd, yn dathlu cerddoriaeth mor brydferth.' Tomáš Hanus** Cyfarwyddwr Cerdd WNO


Don Giovanni Mozart


Pelléas and Mélisande Debussy


Noson yn Fienna



Rhondda Rips It Up! Langer


Cyngherddau Clasuron Opera


Die Fledermaus Johann Strauss II

**'Mae celfyddyd yn cynnig ffordd wahanol o ddeall realiti; nid yw'r un fath â gwrando ar y newyddion ar y radio neu eu darllen mewn papur newydd. Mae'n cynnig ffordd wahanol i ni fynd i'r afael â materion pwysig a'u deall oherwydd ein bod yn ymateb i'r syniadau hyn gyda'n dychymyg, a dyna mae cerddoriaeth, theatr a barddoniaeth yn ein gwahodd i wneud.' David Pountney** Cyfarwyddwr Artistig WNO

# Estyn allan

Mae teithio yn ein gwaed. Ein cenhadaeth yw croesi ffiniau a rhannu opera gyda phawb, o'n cartref yng Nghymru i Loegr â thu hwnt.

**Aberystwyth, Bangor, Birmingham, Aberhonddu, Bryste, Caerdydd, Caerfyrddin, Hwlffordd, Hong Kong, Lerpwl, Llandudno, Llundain, Malvern, Milton Keynes, Yr Wyddgrug, Casnewydd, Y Drenewydd, Rhydychen, Plymouth, Saffron Walden, Southampton, Tyddewi, Abertawe, Treorci**



Cerddorfa WNO. Llun gan Gareth Iwan Jones

# Ysbrydoli

‘Mae’n anodd crynhoi mewn geiriau’r holl fuddion. Mae wedi bod yn anferth. Mae wedi ehangu gorwelion y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth well o gerddoriaeth, iaith, emosiynau... y byd. Rwy’n clywed y plant yn trafod beth yr hoffent ei wneud pan fyddant yn hŷn. Erbyn hyn mae ganddynt freuddwydion mawr. Rydym yn teimlo’n hynod ffodus o fod wedi cael bod yn rhan o gynllun mor rhagorol.’

**Helen Jones** Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon

**Rydym yn defnyddio pŵer opera i ysbrydoli degau o filoedd o bobl bob blwyddyn o fewn ein cymunedau. Ledled y DU, o Landudno i Southampton, mae ein rhaglen o gyngherddau i’r teulu, gweithdai i ysgolion, corysau cymunedol a grwpiau opera ieuenctid rhanbarthol yn ein helpu i feithrin talent newydd a’r genhedlaeth nesaf o selogion opera.**



## Meithrin

Mae Opera Ieuenctid WNO yn rhaglen hyfforddiant a pherfformio sydd wedi ennill gwobrau lu, ar gyfer cantorion ifanc rhwng 10 a 25 oed, wedi ei lleoli yn ein hybiau yng Nghaerdydd, Llandudno a Birmingham. Mae’n llwyfan sy’n galluogi pobl ifanc i ddatblygu’n broffesiynol, gan gynnig repertoire uchelgeisiol, hyfforddiant proffesiynol a chyfleoedd perfformio.



## Addysgu

Eleni gweithiom gyda dros 90 o ysgolion, gan ddarparu rhaglen unigryw o adnoddau digidol, gweithdai a chyngherddau. Roedd hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan, ymgysylltu a mwynhau profiad opera wedi ei ddylunio ar eu cyfer. Cliciwch Yma i wylio UPRISING!, ffilm fer a gynhyrchwyd fel rhan o’n gwaith Addysgu Digidol gydag ysgolion yn Lerpwl.




## Ymgysylltu

Mae gwreiddiau Opera Cenedlaethol Cymru yn y gymuned, gydag aelodau’n dod at ei gilydd oherwydd eu cariad at gân. Mae Corysau Cymunedol WNO, wedi eu lleoli yng ngogledd a de Cymru, yn gwahodd oedolion sy’n gantorion amatur o bob oed a chefndir, i ddod i gymryd rhan mewn profiadau operatig gydag WNO a bod yn rhan o gymuned WNO.

Lluniau gan Kirsten McTernan



# Chwyldro Rwsia

Yn ystod Tymor yr Hydref 2017, gwelwyd WNO yn perfformio tri o weithiau epig ar thema Rwsia i nodi can mlynedd ers Chwyldro Rwsia: *Khovanshchina* Musorgsky, *Eugene Onegin* Tchaikovsky a *From the House of the Dead* Janáček. Gan ffurfio rhan o raglen R17 Cymru, roedd y tymor yn cynnwys y cydweithrediad cyntaf rhwng Cyfarwyddwr Cerdd WNO Tomáš Hanus a Chyfarwyddwr Artistig WNO David Pountney (*Khovanshchina*, *From the House of the Dead*), ac fe deithiodd ledled Cymru, Lloegr a'r Weriniaeth Tsiec gan dderbyn adolygiadau gwych yn y wasg leol a chenedlaethol. Darganfyddwch fwy yma.

★★★★★

**'Unmissable.'**

The Independent

★★★★★

**'Thrillingly performed.'**

The Times

★★★★★

**'Every singer here pushes themselves to the utmost in portrayals of great force.'**

The Guardian

★★★★★

**'This is opera on the moral edge, and it mesmerises.'**

The Telegraph

★★★★★

**'Will surely be remembered for the unstinting commitment with which this work of idiosyncratic genius is realised.'**

The Financial Times

*From the House of the Dead*. Alan Oke (Skuratov). Llun gan Marek Olbrzymek

# Hybiau Cymunedol Lleol

Ar ôl lansiad llwyddiannus ein rhaglen gymunedol yng ngogledd Cymru yn 2016 – ar y cyd â Venue Cymru a nifer o bartneriaid rhanbarthol eraill – eleni lansiwyd hyb Ieuenctid a Chymunedol Birmingham yng Nghanolfan Pobl Ifanc Lighthouse, Aston. Datblygwyd yr hyb ar y cyd â sefydliadau celfyddydau, arweinwyr cymunedol ac athrawon lleol, ac mae'n cynnwys tair elfen o weithgarwch: gweithio gydag ysgolion, chymunedau a phobl ifanc. Ein nod yw rhannu opera ar lawr gwlad gyda phobl ifanc a'r rhai hynny na fyddai ganddynt fynediad i'r celfyddydau fel arfer. Dyma'r cyntaf o amryw o hybiau ar draws Cymru a Lloegr, gyda bwriad i ehangu i Plymouth a Southampton.

**'Mae hyder y plant wedi tyfu'n aruthrol. Maent wir yn ei fwynhau. Mae'r bechgyn uchel eu cloch yn ei fwynhau oherwydd yr elfen berfformio ac mae plant distawch, llai hyderus bellach yn rhoi eu llaw i fyny ac yn siarad mwy yn y dosbarth.'**

**Mrs Bernadette Hall** Athrawes Ddosbarth, St Clare's Primary, Birmingham



Birmingham Youth Opera Showcase. Photo by Simon Hadley

# Datblygu Talent

Yn 2017/2018 parhaom gyda'n hymrwymiad hirdymor i ddatblygu talent operatig newydd. Mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, lansiwyd Ysgol Opera newydd David Seligman mewn cydweithrediad ag Opera Cenedlaethol Cymru, gan ddwyn ynghyd rhaglen breswyl gerddorfaol a chynllun cantorion ifanc WNO mewn profiad addysgu opera trochol 360° cyntaf o'i fath. Parhaom â'n partneriaeth â'r National Opera Studio, gan gynnig cyfnod preswyl blynyddol i bob un o'u hartistiaid ifanc weithio a pherfformio gyda'n tîm creadigol a cherddorfa. Daeth Kerem Hasan yn Arweinydd Cyswllt y Cwmni ar ôl iddo gyrraedd rowndiau terfynol Cystadleuaeth Arwain Donatella Flick London Symphony Orchestra ac, yn dilyn cynnal Symposiwm Menywod mewn Cerddoriaeth Glasurol cyntaf WNO, cyhoeddom raglen Arweinydd Preswyl Benywaidd a fydd yn dechrau yn 2019.



WNYO Showcase. Llun gan Kirsten McTernan

# Hong Kong

Ym mis Mawrth 2018 cafodd WNO wahoddiad i berfformio ei gynhyrchiad clodwiw o *Pelléas et Mélisande* Debussy yng Ngŵyl Gelfyddydau Hong Kong, gan nodi can mlynedd ers marwolaeth y cyfansoddwr. Yn anfodlon gydag allforio cynhyrchiad prif raddfa o'r radd flaenaf yn unig, aethom â'n Cyngerdd i'r Teulu a'n Harddangosfa allan gyda ni, a oedd yn cynnwys cymysgedd gwyllt o gerddoriaeth fyw, peintio wynebau, arddangosiadau wigiau, gweithdai rhoi cynnig arni, a'n profiad rhith-wirionedd *Magic Butterfly*. Trawsnewidiwyd HK Cultural Centre yn gartref oddi cartref.

I ddarganfod mwy am *Magic Butterfly* cliciwch yma.

**'There is no better way to cross cultural divides than through the arts.'**
Great British Brands 2019



*Pelléas and Mélisande*. Jurgita Adamonyté (Mélisande) a Christopher Purves (Golaud). Llun gan Clive Barda



# Rhondda Rips It Up!

★★★★★ The Times
★★★★ The Guardian
★★★★ The Stage

Yn 2018 cyflwynodd WNO *Rhondda Rips It Up!*, comisiwn newydd afieithus sy'n dathlu bywyd y swffragét o Gymru Margaret Haig Thomas. Yn cynnwys cast a thîm creadigol o fenywod yn unig, perfformiwyd y darn ledled Cymru a Lloegr mewn theatrau rhanbarthol, gan ennyn diddordeb cynulleidfaoedd newydd a derbyn cryn ganmoliaeth yn y broses. I gyd-fynd â'r daith roedd rhaglen estyn allan o weithdai i ysgolion, sesiynau cydganu gyda chyfranogwyr lu, dadleuon, arddangosfeydd i'r teulu, perfformiadau Corws Cymunedol, a phrofiad rhith-wirionedd ymgollol newydd Rhondda Rebel.

I ddarganfod mwy am y cynhyrchiad hwn gwyliwch ein cyfres fer *Rhondda Rips It Up!* yma.

**Emcee** Lesley Garrett
**Yr Arglwyddes Rhondda** Madeline Shaw

**Cyfansoddwr** Elena Langer
**Cyfarwyddwr Cerddorol** Nicola Rose
**Libretydd** Emma Jenkins
**Cyfarwyddwr** Caroline Clegg

**'Hoffwn pe bai gennym fwy o gynyrchiadau o'r math hwn yn ein theatr leol gan ei fod mor berthnasol i'n bywydau fel menywod.'** Aelod o'r Gynulleidfa, Aberhonddu

*Rhondda Rips It Up!*. Llun gan Jane Hobson

# Partneriaid Creadigol

**Mae cydweithio a phartneriaethau wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Law yn llaw â rhaglen o berfformiadau, digwyddiadau ieuenctid, cymunedol a digidol, mae WNO yn ffurfio partneriaethau artistig gyda chwmnïau opera a phartneriaid diwylliannol ar draws y byd.**

Aberystwyth Arts Centre, Adamsdown Primary, Alexander Bullock Furniture Ltd, All Scene All Props, Almeida Theatre Company Ltd, Anglesey Primary School, Archbishop McGrath High School, ATG Productions Ltd, Atlanta Ballet, Bangor University, Banister Primary, Barry Community Choir, Bay Productions, Bayhouse School, Birmingham Council, Birmingham Hippodrome, Birmingham MAC, Birmingham Music Hub, Birmingham Town Hall, Blessed W. Davies Primary School, Brecon Theatr Brycheiniog, Bristol Colston Hall, Bristol Hippodrome, Bryn Seiont Newydd Caernarfon, Brynteg School, Cameron Mackintosh, Canolfan Gerdd William Mathias Music Centre, CânSing, Cardiff and the Vale Community College, Cardiff New Theatre, Cardiff Philharmonic Orchestra, Cardiff University, Cardiff West Community High School, Carmarthen Lyric Theatre, Chandos Primary School, Chichester Festival Theatre, Christchurch CP School, Clarendon Junior School, Coed-y-lan Primary School, Colmore Infant School, Conwy County Borough Council, Conwy Expressive Arts, Denbighshire Music Co-operative, Elfed High School, Elliot Harper Productions, English National Opera, Ensemble Cymru, Ffilm Cymru, Flintshire Music Service, Forget-me-not Chorus, Fundacio Del Gran Teatre Del Liceu, Galeri, Glyncoed & Coed-y-lan Primary, Glyncoed Primary School, Glyndebourne Opera, Glyndwr University, Good Chance Theatre, Greek National Opera, Greenfields Junior School, Greenholm Primary School, Grove Primary School, Hackney Empire, Hampstead Theatre, Harborne Primary School, Herbert Thompson Primary School, Heronsbridge School, Hollybrook Junior School, Holywell School, Hong Kong Arts Festival, Hong Kong Cultural Centre, Hywel Dda Primary School, IMG, Injan Cyf, Insole Court, John Frost High School, KD Productions Ltd, Liverpool Empire Theatre, Llandudno Venue Cymru, Llawn Festival, Mab Lane Primary School, Maes Ebbw School, Maesteg School, Malvern Forum Theatre, Mayflower Theatre, Meadowbank School, Milbank Primary School, Milford Haven Torch, Millbank & Moorland School, Milton Keynes Theatre, Min Motion, Montgomery Primary School, Moorland Primary School, Music Theatre Wales, National Assembly for Wales, National Eisteddfod of Wales, National Museum Wales, National Theatre, National Theatre Wales, NEW (North East Wales) Sinfonia, Newport Riverfront, North Wales Choral Festival, North Wales International Music Festival, Northampton Theatres Trust Ltd, Only Boys Aloud, Open Other End Ltd, Opera Omaha, Overmonnow Primary School, Oxford New Theatre, Oystermouth Primary School, Park and Dare Theatre, Pendine Park, Playful UK Ltd, Plymouth Theatre Royal, Pontio, Porthcawl Comprehensive School, Presentation Design Services Ltd, PW Productions Ltd, Queens Park Primary School, Ranworth Square Primary School, Redbridge Drama Centre, Redbridge Primary, Regent's Park Theatre Ltd, REWIND, Rhoose Primary School, Riverbank Special School, Romilly Primary School, Rondo, Royal Horticultural Society, Royal Opera House, Royal Shakespeare Company, Royal Welsh College of Music and Drama, Royal Birmingham Conservatoire, S4C, Saffron Hall, Scottish Opera, Severn Screen, SFP Shows Ltd, Sheffield Theatres, Sketty Primary School, Somerville Primary School, Sonalyst, St Anne's Catholic School, St Asaph's Cathedral, St Bernadette's Primary School, St Chad's RC Primary School, St Clare's RC Primary School, St David's Hall, St David's Cathedral, St Helen's  Primary School, St Helen's Primary School, St Illtyd's Primary School, St Joseph's Primary School, St Jude's RC Infant School, St Mary's Church, St Mellon's Primary School, St Michael's Primary School, St Nicholas Primary School, St Vincent's RC Primary School, St Winefride's Primary School, State Opera of South Australia, Studio 144, Swansea Music Unit, Swansea University, take pART, Taliesin Arts Centre, Teatr Wielki, Teatro di San Carlo, Tenovus Penarth, The Crescent Primary School, The Harbour School, The Hollies School, The Kiln Theatre, The Lighthouse Centre, The Pierhead, The Sessions House, The Sholing Technology College, The Singing Club, Theatr Clwyd, Theatr Colwyn, Theatr Hafren, Theatre Bonn, Touch Trust, Townhill Junior School, Trinity Laban, Turner Sims Concert Hall, U3A Cardiff, University Hospital Wales, Valentine Primary School, Venue Cymru, Wales Millennium Centre, Welsh Government, Whitchurch Primary School, Wild Creations, Willowbrook Primary School, Windsor Clive Primary School, Wordsworth Primary School, Wrexham Music Service, Yenton Primary School, Young Vic, Ysgol Bro Carmel, Ysgol Bryn Pennant, Ysgol Brynford, Ysgol Cwm Gwyddon, Ysgol Esgob Caerwys, Ysgol Glan Aber, Ysgol Glancegin, Ysgol Gynradd Cystennin, Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw, Ysgol Iau Hen Golwyn, Ysgol Lixwm, Ysgol Llanbedr, Ysgol Llanddulas, Ysgol Llandrillo yn Rhos, Ysgol Maes Glas, Ysgol Nant y Groes, Ysgol Pen Barras, Ysgol Pen y Bryn, Ysgol Porth y Felin, Ysgol St Elfod, Ysgol Treffynnon, Ysgol Trefnant, Ysgol Tudno, Ysgol y Llys, Ystrad Mynach Primary School.

*WNYO Showcase.* Llun gan Kirsten McTernan

# Diolch

**Hoffai Opera Cenedlaethol Cymru ddiolch yn fawr iawn i'w holl gefnogwyr yn 2017/2018, eich haelioni chi sy'n ein galluogi i barhau i greu, estyn allan ac ysbrydoli. Diolch i chi, am fod yn rhan o'n stori.**

**Noddwr**
Ei Uchelder Brenhinol
Tywysog Cymru

**Llywydd Anrhydeddus**
Mathew Prichard CBE, DL

**Llywydd Emeritws**
Lord Davies of Llandinam

Arts Council of Wales
Arts Council England

**Bwrdd Cyfarwyddwyr WNO**
Martyn Ryan (Cadeirydd)
Toks Dada
Daniel Evans
Fflur Jones
Sam Jones
Henry Little
Andrew Miller
Elen ap Robert
Will Wyatt CBE

Mark Molyneux
(Cadeirydd 2016 – 2019)
Tony Hales CBE
(2011 – 2019)
Menna Richards OBE
(2011 – 2018)

**Bwrdd Ymgynghorol WNO**
Justin Albert
Nancy Lavin Albert
Saphieh Ashtiany
Geraint Talfan Davies OBE DL
Colin Fletcher
Keith Griffiths
Harry Hyman
Gordon Pell
Marian Pell
Christopher Pickup, LVO OBE
John J Studzinski CBE

**Partneriaid Busnes a Noddwyr**
A Mclays & Co.
Ancre Hill Estates
Associated British Ports
Capital Apartments
Eversheds Sutherland LLP
MAC Cosmetics
Mosimann's
Restaurant James Sommerin
Welsh Government

**Ymddiriedolaethau a Sefydliadau**
The Allan & Nesta Ferguson Charitable Settlement
The Ambache Charitable Trust
The Andrew Lloyd Webber Foundation
Baron Davenport's Charity
Bateman Family Charitable Trust
The Boltini Trust
The Boshier Hinton Foundation
The BRIT Trust
The D'Oyly Carte Charitable Trust
The Chapman Charitable Trust
The John Coates Charitable Trust
The John S Cohen Foundation
Leonard Chadwick Charitable Trust
Colwinston Charitable Trust
The Ernest Cook Trust
Dunard Fund
Esmée Fairbairn Foundation
The George Fentham Birmingham Charity
The John Feeney Charitable Trust
Joyce Fletcher Charitable Trust
Gibbs Charitable Trust
Simon Gibson Charitable Trust
The Gwendoline and Margaret Davies Charity
The Hodge Foundation
The Mary Homfray Charitable Trust
International Music and Art Foundation
Jenour Foundation
Joseph Strong Frazer Trust
Kobler Trust
The Kirby Laing Foundation
The Leche Trust
Millichope Foundation
The Nicholas John Trust
The Oakley Charitable Trust
The Owen Family Trust
The Patrick Trust
PRS Foundation's The Open Fund
The E L Rathbone Charitable Trust
RVW Trust
The Sobell Foundation
The Thomas Howell's Education Fund for North Wales
Unity Theatre Trust
The Barbara Whatmore Charitable Trust
William A Cadbury Trust
Anhysbys

**Cylch Cyfarwyddwr Artistig**
Anthony & Elizabeth Bunker
The Jean Buckley Legacy
Andrew Fletcher
David Macfarlane
Marian & Gordon Pell
Mathew & Lucy Prichard
Clive & Sylvia Richards
John Ward

**Noddwyr Diemwnt**
Philippa & David Seligman

**Syndicet Verdi**
Neville & Nicola Abraham
Anthony Boswood
Anthony & Elizabeth Bunker
Patrick & Wendy Elias
Dr Julia P Ellis
Colin & Sylvia Fletcher
Luke Gardiner
Christopher Greene & Annmaree O'Keeffe
Mr & Mrs John & Maggie Hayes
Harry Hyman & Melanie Meads
David John & Lady Hunt
Steven & Meg John
Sir Timothy & Lady Lloyd
Peter & Veronica Lofthouse
David Macfarlane
William & Felicity Mather
Harriet & Michael Maunsell
Hugh & Eleanor Paget
Sebastian & Frances Payne
Marian & Gordon Pell
Mr & Mrs Anthony Pitt-Rivers
Mathew & Lucy Prichard
Ivor Samuels & Gerry Wakelin
Dr David Speller
David & Margaret Walker
John Ward
Veronica Warner & Viv Wylie
Anhysbys

**Undeb Rhondda**
Baroness Gale of Blaenrhondda (Noddwr)
Anthony & Elizabeth Bunker
Christine Eynon
Andrew Fletcher
Dr Maggie Gregory
Tony & Linda Hales
Mrs Paula Hyman
Mark & Melanie Molyneux
D Morgan
John Ward
Anhysbys

**Bwrsariaethau WNO**
Anthony Evans Scholarship
Chris Ball Bursary
Sir John Moores Award
Parry Family Bursary
Schäfer Bursary
Mary Warner Trust

**Partneriaid WNO**
**Cymdeithas Idloes Owen WNO**
**Cyfeillion WNO**
**Cyfeillion Americanaidd WNO**

# Beth sydd nesaf?



**RHYDDID**

Tymor o weithiau operatig gyda thrafodaethau panel, sgyrsiau a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned cysylltiedig sy'n archwilio themâu hawliau dynol, cyfiawnder a charchariad gwleidyddol.

**Don Pasquale**

Trwy gydol Haf 2019 bydd WNO yn cyflwyno cynhyrchiad newydd, gwych Daisy Evans mewn lleoliadau ledled Cymru a Lloegr.



**Carmen**

Cynhyrchiad newydd ar gyfer Hydref 2019 dan gyfarwyddyd Jo Davies, a ddyluniwyd gan Leslie Travers, a dan arweiniad Tomáš Hanus.



**Les vêpres siciliennes**

Mae Trioleg Verdi lwyddiannus WNO (*La forza del destino* (2018) *Un ballo in maschera* (2019)) yn dod i ben yng Ngwanwyn 2020 gyda'r gwefreiddiol *Les vêpres siciliennes*.



**Duke Bluebeard's Castle**

Bydd Haf 2020 yn gweld un o gyn-berfformwyr WNO Syr Bryn Terfel yn dychwelyd i chware prif rôl *Duke Bluebeard's Castle* Bartok, ar gyfer cyfres o berfformiadau yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Tomáš Hanus. Llun gan Gareth Iwan Jones

**Cadwch mewn cysylltiad â WNO** **wno.org.uk**

Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
LOTTERY FUNDED Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

Rhif Elusen Gofrestredig 221538